

Patrwm cyflwyno: O fis Tachwedd i fis Hydref/O fis Mai i fis Ebrill (12 mis)

Disgrifiad o'r modiwl

Mae MSc Y Brifysgol Agored mewn Seiberddiogelwch yn cynnig y cyfle i'r rheini sy'n byw yn yr Alban ennill gradd drwy gynllun Prentisiaeth Datblygu Sgiliau i Raddedigion yr Alban. Mae'r radd feistr hon yn rhoi gwerth 90 o gredydau o addysg seiberddiogelwch a ddysgwyd a 30 o gredydau o brosiect proffesiynol i brentisiaid a ddewiswyd gan gyflogwyr, yn ogystal â 60 o gredydau o ddysgu sy'n seiliedig ar waith a gaiff ei hwyluso yn lleoliad cyflogaeth y prentis. Ar hyn o bryd cynlluniwyd y cymwysterau fel y cânt eu cwblhau mewn 18 mis. Mae XMY845 yn rhan hanfodol o'r cymhwyster hwn.

Caiff cymwysterau'r Brentisiaeth i Raddedigion eu cynnwys yn y cyflwyniad achrediad arferol nesaf i Gymdeithas Cyfrifiaduro Prydain, y Sefydliad Siartredig TG.

Diben XMY845 yw'r canlynol:

- Rhoi cyfle i fyfyrwyr gymhwyso'r theori o'r modiwlau a ddysgwyd i'r gweithle, myfyrio ar y profiad hwn, a rhoi tystiolaeth o'u canlyniadau mewn portffolio. Caiff y portffolio ei weithredu gyda help portffolio ar-lein.
- Ategu ac ymestyn cynnwys y modiwlau er mwyn cynnal natur gyfamserol. Bydd hyn yn cynnwys cael gafael ar gyfres o adnoddau dysgu wedi'u curadu.
- Datblygu dealltwriaeth ymarferol o faterion cyfreithiol, cymdeithasol, moesegol a phroffesiynol, sgiliau academaidd a chyflogadwyedd
- Datblygu sgiliau dysgu arbrofol

Y Tiwtor Ymarfer

Diben y rôl yw darparu cymorth cymhwyster a chymorth modiwl.

1. Cymorth cymhwyster. Chi fydd pwynt cyswllt cyntaf y myfyriwr ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i fyfyrwyr, gan ymgysylltu â chyflogwyr a mentoriaid yn y gweithle, gan helpu myfyrwyr i gynllunio eu hamser a monitro eu cynnydd.

2. Cymorth modiwl. Mae hyn yn cynnwys y canlynol: darparu cymorth ac arweiniad ymarferol i fyfyrwyr sy'n astudio XMY845 a XMY855; gwirio a chymeradwyo eu portffolio electronig, gan farcio chwe TMA.

Bwriedir i'r elfennau hyn ategu ei gilydd, gan greu rôl ddiddorol a boddhaol.

Caiff y tiwtor ymarfer ei reoli gan diwtor staff o'r Ysgol Cyfrifiadura a Chyfathrebu, yn y Gyfadran Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg, ac mae'n atebol iddo.

Disgrifiad swydd

Cymorth cymhwyster

Ar gyfer y rhan hon o'r rôl mae angen unigolyn sy'n barod i gymryd diddordeb brwd mewn pob agwedd o brofiad y myfyriwr ac yn gallu gwneud hynny, gan wneud ymyraethau a ddyfarnwyd yn ofalus fel y bo angen. Y canlynol yw'r prif gyfrifoldebau, ond ymhlyg o fewn y rhain ceir amrywiaeth o weithgareddau eraill a all fod angen eu cyflawni o bryd i'w gilydd. Mae hyblygrwydd yn allweddol i'r rôl hon, gan ganolbwyntio ar les y myfyriwr a chydberthynas Y Brifysgol Agored gyda'r cyflogwr

Byddwch yn gwneud y canlynol:

- cynnal cyfarfod cychwynnol wyneb yn wyneb â phob myfyriwr a'i rheolwr a/neu fentor yn y gweithle yn yr Alban i gytuno ar gynllun gweithgareddau a fydd yn para drwy gydol y modiwl, a fyddai'n golygu y gall y myfyriwr gyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl os bydd yn ei gwblhau'n llwyddiannus.

- cynnal cyfarfodydd datblygiad rheolaidd gyda'r myfyriwr a'i rheolwr/mentor, gan sicrhau y caiff y cynllun gweithredu ei addasu yn ôl yr angen; gall y rhain fod ar-lein neu wyneb yn wyneb fel sy'n ofynnol, er y disgwylir y cynhelir o leiaf un o'r rhain wyneb yn wyneb;
- cynllunio a chynnal cyfarfodydd ar-lein gyda phob myfyriwr i adolygu cynnydd a rhoi cyngor ac arweiniad
- cefnogi prentisiaid i ddehongli cynnwys academiaidd o'u modiwlau a ddysgwyd yng nghyd-destun eu prentisiaeth
- rhoi'r cymorth priodol i brentisiaid ag anghenion ychwanegol yng nghyd-destun yr addasiadau rhesymol y mae'r Brifysgol yn eu gwneud i gefnogi dysgwyr o'r fath
- cymryd camau priodol os bydd myfyriwr mewn perygl o fethu neu'n gwneud cynnydd anfoddfaol, gan werthuso'r angen am gymorth ychwanegol a chadarnhau y caiff ei ddarparu. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â mentoriaid myfyrwyr o gyrsiau eraill a addysgir, tiwtor staff a rheolwr cyflwyno'r rhaglen brentisiaeth (APDM) sy'n rhoi cymorth datblygu busnes, gweinyddol a gweithredol i'r brentisiaeth
- cadw cofnodion cynhwysfawr ar gyfer pob myfyriwr, gan wirio'r portffolio electronig yn ôl yr angen
- cynnal a datblygu gwybodaeth o fodiwlau a addysgir yn y cymhwyster

Cymorth modiwl

Fel yn <http://www.open.ac.uk/jobs/tutors/teaching-roles/duties>

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech roi tystiolaeth o'r canlynol:

- agwedd hyblyg, broffesiynol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr
- agwedd gefnogol a gwerthfawrogiad o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr
- gradd gyntaf neu uwch mewn Cyfrifiadura a TG neu faes cytras, neu achrediad proffesiynol priodol
- gwybodaeth academiaidd dda am seiberddiogelwch
- gwybodaeth am system addysg ac amgylchedd busnes yr Alban
- y gallu i ymweld â phrentisiaid yn eu gweithleoedd yn yr Alban ar ddechrau'r cyflwyniad, ac yn ddilynol os bydd yn rhaid gwneud hynny
- y gallu i deithio i'r Alban yn gymharol gyflym mewn car, ar y trêen neu ar awyren
- y gallu a'r parodrwydd i gael trosolwg da o'r modiwlau y mae'r myfyrwyr yn eu hastudio ochr yn ochr â'r modiwl hwn
- y gallu i drosi gwybodaeth academiaidd yn weithgareddau y gellir eu cynnal yng ngweithle'r myfyriwr
- sgiliau mewn diplomyddiaeth, negodi a chyfathrebu
- gwerthfawrogiad o anghenion dysgwyr sy'n oedolion a'r ffordd y mae oedolion yn dysgu mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar waith
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu a chefnogi prentisiaid
- gwerthfawrogiad da o ofynion astudio ôl-raddedig
- dealltwriaeth o bolisïau ac arferion cyfle cyfartal ac ymrwymiad iddynt
- ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol eich hun

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad proffesiynol diweddar o weithio ym maes seiberddiogelwch yn y diwydiant
- profiad o weithio gyda chyflogwyr
- gwybodaeth am fodiwlau Meistr, M811 a M812 yr Ysgol

Gwybodaeth ychwanegol

Yr iaith addysgu yw Saesneg a dylai eich hyfredded yn Saesneg fod yn ddigonol i fodloni holl ofynion y rôl.

Dylech feddu ar gyfrifiadur eich hun â mynediad i'r rhyngrwyd.

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	7
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.30